Rhif: WG54424

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Canllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar adrannau wedi'u diweddaru o ganllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, 2026.

Mawrth 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-462-4

## Trosolwg

Mae canllawiau fframwaith statudol y Cwricwlwm i Gymru wedi cael eu diweddaru bob blwyddyn ers 2022. Gan mai tymor y gwanwyn yw'r adeg fwyaf addas yn y flwyddyn academaidd i wneud diweddariadau o'r fath, cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Ionawr a 2 Chwefror 2026.

Mae'r holl ddiweddariadau a gynigir eleni yn canolbwyntio ar y rhan o'r Fframwaith sy'n ymwneud â'r canllawiau ar ddysgu 14-16. Bwriad y newidiadau hyn yw adlewyrchu gwybodaeth ddiwygiedig ar y canlynol o fewn y canllawiau:

- TGAU Gwyddoniaeth Gwneud-i-Gymru
- Y Cynnig Cymwysterau 14 i 16 Cenedlaethol
- Cyfeiriadau at Academi Seren
- Hunanwerthuso a gwella
- Ecosystem ddata a gwybodaeth addysg newydd

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Y canllawiau ar ddysgu 14-16 a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Llwybrau dysgu 14 i 16 y Cwricwlwm i Gymru
Yr Is-adran Llwybrau Dysgu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Dysgu.14-16.learning@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maen nhw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: hyperlink

# Cynnwys

Cefndir yr ymgynghoriad ........ 3
Yr ymgysylltu â'r ymgynghoriad ........ 4
Ymatebion i'r cwestiynau  ymgynghori ........ 4
Y camau nesaf ........ 9

## Cefndir yr ymgynghoriad

1.1 Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ar gynigion i wneud newidiadau penodol a chyfyngedig i'r canllawiau ar ddysgu 14 i 16 yng ngwanwyn 2026. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Medi 2024, cyn i bynciau TGAU newydd Ton 1 gael eu cyflwyno yng Nghymru ym mis Medi 2025.

1.2 Ym mis Medi 2026, caiff cymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru Ton 2 eu cyflwyno, gan gynnwys cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth newydd. Ym mis Medi 2027, bydd Ton 3 yn cyflwyno cymwysterau TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd), y Gyfres Sgiliau, Prosiect Personol, a Sylfaen i gwblhau'r gyfres o Gymwysterau 14 i 16 Cenedlaethol.

1.3 Yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau ym mis Medi 2024, mae angen eu diweddaru bellach i adlewyrchu'r gweithredu graddol ar y gyfres o Gymwysterau 14 i 16 Cenedlaethol, a'r gwaith sy'n parhau i ddatblygu polisi 14 i 16 y Cwricwlwm i Gymru. Dyma fanylion y diweddariadau sy'n ofynnol:

### TGAU Gwyddoniaeth Gwneud-i-Gymru

1.4 Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru, yn rhinwedd ei rôl fel rheoleiddiwr annibynnol, ei benderfyniad i barhau i wrando ar y sector addysg a chynnal ymgynghoriad pellach yn nhymor yr hydref 2028 ar y gyfres o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. O ganlyniad, fe wnaeth hefyd gadarnhau y bydd cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg yn parhau i fod ar gael ar wahân i ysgolion a dysgwyr, hyd nes bod canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw'n hysbys.

1.5 O fis Medi 2026 ymlaen felly, bydd ysgolion yn gallu cynnig y cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth presennol ar wahân, a'r cymwysterau TGAU newydd diwygiedig yn y Gwyddorau (dyfarniad dwbl) a Gwyddoniaeth Integredig (dyfarniad sengl) i'w dysgwyr. Gan na fyddai dilyn un neu ddau o'r cyrsiau Gwyddoniaeth ar wahân yn cynnig i ddysgwyr yr ehangder dysg a gynigir gan y TGAU Gwyddoniaeth Integredig newydd, roedd y newidiadau drafft yn cynnwys disgwyliad bod ysgolion yn cyflwyno'r tri chymhwyster TGAU Gwyddoniaeth mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg ar wahân i'r dysgwyr hynny sy'n eu dilyn yn lle'r TGAU Dyfarniad Dwbl neu Sengl integredig yn y Gwyddorau.

1.7 Roedd y diweddariadau i'r canllawiau yn adlewyrchu'r newidiadau i'r TGAU Gwyddoniaeth a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, o ganlyniad, yn disgwyl i'r gyfres o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth gael ei defnyddio gan ysgolion o fis Medi 2026.

### Y Cynnig Cymwysterau 14 i 16 Cenedlaethol

1.8 Pan gyhoeddwyd y Canllawiau ar Ddysgu 14 i 16 ym mis Medi 2024, roeddent yn nodi y dylai pob dysgwr, o fis Medi 2027, ddewis cymwysterau o'r Cynnig Cymwysterau 14 i 16 Cenedlaethol. Nid oedd y canllawiau yn nodi'n benodol bod hyn yn cynnwys cymwysterau Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU), y Gyfres Sgiliau a Phrosiect Personol, a Sylfaen. Cynigiwyd diwygiad i adlewyrchu'n glir bod y cymwysterau hyn ar gael yn ogystal â TGAU o 2027 ymlaen.

## Cyfeiriadau at Academi Seren

1.9 Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru i gyfeirio ysgolion i ystyried y cyfleoedd a ddarperir i ddysgwyr drwy Academi Seren.

## Hunanwerthuso a gwella

1.10 Mae'r adran hunanwerthuso a gwella yn y canllawiau wedi'i diweddaru i nodi y gallai ysgolion hefyd ystyried y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, sy'n amlinellu proses lle mae sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i adnabod pobl ifanc 11 i 18 oed sydd mewn perygl o ddatgysylltu o gyfleoedd dysgu, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt.

## Ecosystem ddata a gwybodaeth addysg newydd

1.11 O ganlyniad i ymgynghori'n gyhoeddus ar Fframwaith Dangosyddion newydd yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 rhwng Ionawr a Mawrth 2025, mae'r canllawiau diwygiedig ar ddysgu 14 i 16 bellach yn adlewyrchu sut mae hwn yn ffurfio un elfen o'r wybodaeth a'r dystiolaeth y dylid eu defnyddio ar wahanol lefelau o system ysgolion at ddibenion gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, yn unol â'n dull o ddefnyddio gwybodaeth a data i gefnogi a gwella dysgu, ac yn cadarnhau y bydd y trefniadau adrodd newydd yn cael eu cyflwyno yn 2027.

## Yr ymgysylltu â'r ymgynghoriad

2.1 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru rhwng 2 Ionawr a 5 Chwefror 2026. Fe'i hyrwyddwyd drwy'r sianeli cyfathrebu digidol arferol.

2.2 Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol. O'r 7 cwestiwn, roedd cwestiynau 1 i 4 yn gofyn am ymateb graddedig:

| | |
|---|---|
| 1. | Cytuno'n gryf |
| 2. | Cytuno i raddau |
| 3. | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
| 4. | Anghytuno i raddau |
| 5. | Anghytuno'n gryf |

2.3 Cafwyd dau ymateb i'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd yr ymatebion hyn gan Estyn a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru.

## Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau'n glir ynglŷn â disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran defnyddio cymwysterau gwyddoniaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed, yn dilyn penderfyniad Cymwysterau Cymru i barhau i gynnig gwyddoniaeth driphlyg?**

**Cytuno i raddau = 2**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Mae'r ddau ymateb yn cytuno bod pethau'n fwy eglur, ond nad yw hynny'n ddigonol ar ei ben ei hun. Codwyd materion penodol ynghylch:

- Darparu manylebau, asesiadau ac adnoddau Cymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg.
- Disgwyliadau clir am ddilyniant o wahanol lwybrau cymwysterau i gyrsiau UG / Safon Uwch yn y Gwyddorau.
- Tegwch mynediad at ddarpariaeth addysg wyddoniaeth o ansawdd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn cytuno bod darparu deunyddiau ac adnoddau dwyieithog mewn perthynas â chymwysterau yn fater pwysig. Gan fod darparu deunyddiau ac adnoddau sy'n ymwneud â chymwysterau yn un o gyfrifoldebau cyrff dyfarnu, a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru, ni fyddai hyn yn berthnasol i ganllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion. Mae CBAC a Chymwysterau Cymru wedi cadarnhau, fodd bynnag, fod yr holl fanylebau newydd, y deunyddiau asesu enghreifftiol a'r adnoddau ar gyfer cymwysterau TGAU Tonnau 1 a 2 wedi'u darparu'n ddwyieithog ar yr un pryd. Bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i fonitro'r manylebau a'r deunyddiau a ddarperir ar gyfer cymwysterau Ton 3 fel bod yr amod hwn yn parhau i gael ei fodloni gan yr holl gyrff dyfarnu.

Mae'r canllawiau yn glir bod y cymhwyster Gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl) yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio'r gwyddorau ar lefel UG / Safon Uwch. Yn yr un modd, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn glir yn yr holl ddeunyddiau a'r ohebiaeth a gyhoeddwyd y bydd dysgwyr yn gallu symud ymlaen yn llwyddiannus i gymwysterau Gwyddoniaeth Safon Uwch/UG ar ôl dilyn naill ai'r dyfarniad dwbl newydd neu'r cymwysterau TGAU gwahanol presennol.

Mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y gyfres o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth a ragwelir ar gyfer y dyfodol yn nhymor yr hydref 2028. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau hyn i'w gwneud yn glir beth yw ein disgwyliadau ar y defnydd o'r cymwysterau Gwyddoniaeth a fydd ar gael i ysgolion o fis Medi 2031 ymlaen.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn ei gwneud yn glir y bydd y cymwysterau TAAU, y Gyfres Sgiliau a Sylfaen ar gael o fis Medi 2027?**

**Cytuno i raddau = 2**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno cymwysterau TAAU, y Gyfres Sgiliau a Sylfaen yn glir.

Roedd un ymatebydd, wrth nodi cefnogaeth gref i gynnig cymwysterau eang a chynhwysol sy'n rhoi gwerth ar ddysgu galwedigaethol, cymhwysol ac sy'n seiliedig ar sgiliau, yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau parch gwirioneddol gydradd i'r cymwysterau hyn.

Nodwyd pwysigrwydd canllawiau amserol pellach i gefnogi ysgolion, o ran addasrwydd cyrsiau ar gyfer gwahanol ddysgwyr, ac ar sut i ddewis y llwybr dysgu mwyaf priodol i

ddisgyblion o fewn a thu hwnt i leoliadau ysgol. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i ddarparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu o ran cyflwyno'r cymwysterau hyn, gan sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gael ar yr un pryd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn deall a thrafod sut y gellir cryfhau'r canllawiau ymhellach, gyda'r bwriad o helpu i gyflwyno addysg i'r dyfodol. Rydym hefyd yn disgwyl i gyrff dyfarnu gyhoeddi deunyddiau ategol ar gyfer eu cymwysterau TAAU yn unol â'r manylebau a gymeradwywyd, gan ddechrau gyda chyhoeddi'r manylebau ym mis Medi 2026.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno bod y diweddariadau i'r canllawiau yn ei gwneud yn glir bod y trefniadau adrodd yn y dyfodol ar gyfer dysgu 14 i 16 wedi'u hadeiladu o amgylch yr Hawl i Ddysgu 14 i 16?**

**Cytuno i raddau = 2**

**Crynodeb o’r ymatebion**

Roedd y ddau ymateb yn cytuno i raddau, ond yn codi pryderon ehangach ynghylch beichiau posibl ar y gweithlu/yn weinyddol, a'r perygl o ddychwelyd at fesurau sy'n ymwneud â pherfformiad; effaith bosibl casglu data; a gweithredu'r Fframwaith yn llwyddiannus.

Gwnaed un cyfeiriad penodol at yr angen am gysondeb cliriach rhwng trefniadau adrodd a phrosesau gwella cenedlaethol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r canllawiau yn ailddatgan bod y trefniadau adrodd newydd yn cael eu dylunio i gefnogi gwelliant, ac nid i ddychwelyd i system sy'n seiliedig ar berfformiad ac atebolrwydd sydd â goblygiadau mawr. Mae gweithredu yn unol ag egwyddorion ecosystem wybodaeth yn darparu sylfaen glir ar gyfer defnyddio data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant, heb roi beichiau ychwanegol ar y gweithlu.

Mewn ymateb i'r alwad am gysondeb cliriach rhwng trefniadau adrodd a phrosesau gwella cenedlaethol, cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru fod hwn yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef, yn ychwanegol at y diwygiadau a gynigiwyd eisoes. Bydd naratif pellach yn cael ei ychwanegu at y canllawiau diwygiedig cyfredol, felly, mewn ymateb i'r sylw hwn yn yr ymgynghoriad, a fydd yn nodi'n fwy penodol beth yw lle Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu o fewn y darlun data ehangach ac mewn perthynas ag elfennau o werthuso, gwella ac atebolrwydd, gan ei gwneud yn glir mai pwrpas adrodd ar ddata a gwybodaeth am ddysgu 14 i 16 ar lefel ysgol i gynulleidfa gyhoeddus yw cefnogi tryloywder a chyfathrebu gwybodaeth yn ystyrlon.

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r sector addysg i fireinio dyluniad y dangosyddion. Byddant yn parhau i wneud hynny wrth i Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i

Ddysgu gael ei weithredu, ac wrth i drefniadau adrodd ehangach gael eu datblygu, gan gynnwys y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan a ragwelir ar gyfer y dyfodol i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn barod ac wedi'u harfogi i addasu i'r trefniadau newydd. Bydd asesiadau effaith, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar y gweithlu, yn parhau i gael eu hadolygu wrth inni symud ymlaen i'r camau nesaf hyn. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu adnoddau a systemau digidol a fydd yn cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o adrodd ar ddata a'i ddefnyddio'n effeithiol.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno bod y diweddariadau i'r canllawiau yn ei gwneud yn glir y bydd trefniadau adrodd newydd yn cael eu cyflwyno yn 2027?**

**Anghytuno i raddau = 1**
**Cytuno'n gryf = 1**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Mewn perthynas â'r ymateb 'Anghytuno i raddau', ni ddarparwyd naratif ategol. Cadarnhaodd yr ymateb a nododd 'Cytuno'n gryf' eu bod yn teimlo bod y canllawiau yn glir ynghylch cyflwyno trefniadau adrodd yn 2027. Fodd bynnag, fe wnaethant ychwanegu bod angen cyfathrebu'n amserol ynghylch fersiwn derfynol y trefniadau adrodd i sicrhau bod pobl yn eu deall ac yn eu gweithredu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae eglurder pellach ar y trefniadau adrodd newydd ar gyfer 14 i 16 wedi'i ychwanegu at we-dudalen Hwb ers i'r ymgynghoriad hwn gael ei gynnal. Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector addysg i'w gefnogi i ymbaratoi ar gyfer y trefniadau adrodd newydd mewn modd amserol, a byddant yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod wedi'u harfogi i addasu i'r trefniadau newydd. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu adnoddau a systemau digidol a fydd yn cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o adrodd ar ddata a'i ddefnyddio'n effeithiol.

**Cwestiwn 5 Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol yr adran hon o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**Crynodeb o'r ymatebion** **1**

Tynnwyd sylw unwaith eto at fater a godwyd eisoes yn yr ymateb i gwestiwn 1, ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod manylebau cymwysterau, asesiadau ac adnoddau ar gael yn Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg.

Ymhlith yr awgrymiadau pellach roedd monitro cymwysterau yn ôl iaith; defnyddio partneriaethau / clystyrau i gefnogi llwybrau Gwyddoniaeth cyfrwng Cymraeg; a phrofi templedi adrodd gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyntaf.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi amlinellu sut rydym yn mynd i'r afael â chwestiwn sicrhau bod manylebau, asesiadau ac adnoddau Cymraeg ar gael ar yr un pryd â'r Saesneg yn yr ymateb a ddarparwyd i gwestiwn 1.

Er nad yw rhai o'r awgrymiadau ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol berthnasol i'r canllawiau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried fel rhan o'r gwaith ehangach i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r adran hon o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn: sicrhau ei bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?**

**Crynodeb o'r ymatebion** **1**

Dim ond un ymateb a ddarparodd sylwadau ar y cwestiwn hwn, gan godi mater cydraddoldeb dwyieithog mewn cymwysterau/darpariaeth adnoddau. Mae hyn wedi'i ystyried yn ein hymateb i gwestiwn 1, sy'n manylu ar y camau dilynol. Roedd yn galw hefyd am hyrwyddo dilyniant yn y Gymraeg o fewn llwybrau Gwyddoniaeth, galwedigaethol a chymhwysol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae mater hyrwyddo dilyniant yn y Gymraeg o fewn llwybrau Gwyddoniaeth, galwedigaethol a chymhwysol yn fwy perthnasol i'r ymgynghoriad sy'n agored ar hyn o bryd ar gwricwla lleol 16 i 18, lle mae dilyniant yn y Gymraeg yn un o'r prif themâu. Byddwn yn ystyried yr adborth hwn wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, felly (sy'n cau ar 31 Mawrth).

**Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:**

**Crynodeb o'r ymatebion** **2**

Mae un ymateb yn nodi y bydd gweithredu'r system adrodd newydd yn llwyddiannus yn dibynnu ar gael canllawiau clir yn gynnar, parodrwydd y system, cyfleoedd dysgu proffesiynol, a chysondeb â fframweithiau arolygu ac atebolrwydd. Bydd angen cyfnod digonol ar ysgolion i addasu eu systemau a'u prosesau ymlaen llaw, yn enwedig o ystyried graddfa'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud ar yr un pryd i gymwysterau, y cwricwlwm a data, ochr yn ochr â phwysau cyllid cyfyngedig a'r heriau sy'n parhau o ran recriwtio a chadw staff.

Roedd yr ymateb arall yn tynnu sylw at bwysigrwydd eglurder i ysgolion ynghylch cymwysterau Gwyddoniaeth i'r dyfodol. Pwysleisiodd hefyd fod adnoddau, hyfforddiant a dysgu proffesiynol yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r cymwysterau yn dda.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ceir ymateb llawn sy'n mynd i'r afael â'r materion a nodir o dan gwestiwn 7 o ran gweithredu'r system adrodd newydd yn llwyddiannus yn ymateb cryno Llywodraeth Cymru i gwestiynau 3 a 4.

Mewn perthynas â TGAU Gwyddoniaeth, mae ysgolion bellach yn gallu cynllunio â sicrwydd hyd at 2031. Bydd ymgynghoriad arfaethedig Cymwysterau Cymru ar y gyfres o gymwysterau Gwyddoniaeth a ddarperir i'r dyfodol yn cael ei gynnal yn 2028, ac yn penderfynu ar y cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth a fydd ar gael i ysgolion o fis Medi 2031 ymlaen.

Gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd ar gael i ysgolion sy'n cyflwyno cymwysterau newydd, yn ystod 2025 a 2026 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid sylweddol i CBAC ac Adnodd i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol wyneb yn wyneb a chynhyrchu adnoddau dwyieithog.

## Y camau nesaf

3.1 Ar ôl dadansoddi'r adborth ymgynghori ac ystyried ein blaenoriaethau polisi, cynigir un diwygiad ychwanegol i'r canllawiau y tu hwnt i'r rhai a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol. Ymdrinnir â hyn yn ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chwestiwn 3, sy'n cadarnhau y bydd naratif pellach yn cael ei ychwanegu at y canllawiau diwygiedig cyfredol mewn ymateb i sylw a wnaed yn yr ymgynghoriad, gan nodi'n fwy penodol beth yw lle Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu o fewn y darlun data ehangach ac mewn perthynas ag elfennau o werthuso, gwella ac atebolrwydd, a sut y byddwn yn cefnogi ysgolion drwy'r broses o weithredu'r trefniadau adrodd newydd.

3.2 Er bod nifer o bwyntiau a godwyd y tu hwnt i gwmpas ffurfiol yr ymgynghoriad, tynnodd yr ymatebwyr sylw at nifer o faterion sy'n ymwneud â rhoi'r canllawiau ar waith yn ymarferol. Mae manylion y camau y bwriedir eu cymryd yn ogystal â'r camau sydd eisoes ar y gweill, i roi sylw i'r adborth hwn, i'w gweld o dan bob cwestiwn penodol yn ymateb Llywodraeth Cymru.